

**ATODLEN 1****PLAN SAFLE 1****Y PRIFFYRDD SYDD I'W GWELLA**

Ffordd Conwy

Ffordd Ysguborwen

<b><u>Y PRIFFYRDD SYDD I'W CAU</u></b>	<b><u>MANYLION Y PRIFFYRDD NEWYDD</u></b>		
	<b><u>Llythyren gyfeirnod y Briffordd newydd</u></b>	<b><u>Awdurdod Priffyrdd</u></b>	<b><u>Dosbarthiad y Briffordd</u></b>
Cefnffordd yr A55 o bwynt 298 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt Cyffordd 16 (Cylchfan y Puffin), i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain am bellter o 437 o fetrau, hyd at bwynt ar gefnffordd yr A55 sy'n 143 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt y Gyffordd 16 bresennol (Cylchfan y Puffin) (y rhoddwyd y cyfeirnod 1/S1 iddi ar Blau Safle 1)	-	-	-
Ffordd Conwy o'i chyffordd â chefnffordd yr A55, i gyfeiriad y de-orllewin yn gyffredinol, am bellter o 175 o fetrau (y rhoddwyd y cyfeirnod 1/S2 iddi ar Blau Safle 1)	1/A (Rhan)	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	Ffordd Ddosbarthiadol
Rhan o led gogledd-orllewinol Ffordd Conwy, sy'n cynnwys llain ymyl ffordd y plannwyd coed arno/a dirluniwyd, o bwynt 100 metr i'r de-orllewin o'i chyffordd â chefnffordd yr A55, i gyfeiriad y de-orllewin am bellter o 110 o fetrau ac sy'n 9 metr yn y man lletaf (y rhoddir y cyfeirnod 1/S3 iddi ar Blau Safle 1)	-	-	-
Ffordd Ysguborwen o'i chyffordd â Ffordd Conwy, i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain yn gyffredinol, am bellter o 160 o fetrau (y rhoddwyd y cyfeirnod 1/S4 iddi ar Blau Safle 1)	1/A (Rhan)	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	Ffordd Ddosbarthiadol

<b><u>Y MYNEDFEYDD PREIFAT SYDD I'W CAU</u></b>	<b><u>RHIF CYFEIRNOD Y FYNEDFA BREIFAT NEWYDD</u></b>
Mynedfa â chlwyd o ochr ogledd-orllewinol Ffordd Conwy, wrth bwynt 16 o fetrau i'r gogledd o'r fynedfa i 'Bron Wylfa', hyd at brysgdir ar ochr ogledd-orllewinol Ffordd Conwy, am bellter o 3 metr (y rhoddwyd y rhif 1/1 iddi ar Blan Safle 1).	1/1a
Mynedfa â chlwyd o ochr ogleddol Ffordd Conwy, wrth bwynt 53 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'r fynedfa i 'Bron Wylfa', hyd at dir pori ar ochr ogleddol 'Bron Wylfa', am bellter o 3 metr (y rhoddwyd y rhif 1/2 iddi ar Blan Safle 1).	1/2a
Trac mynediad i dir pori ar ochr ddeheuol Ffordd Conwy, i'r gogledd-ddwyrain o faes chwarae Clwb Pêl-droed Penmaenmawr Phoenix ac i'r de-orllewin o'r eiddo o'r enw Oasis Christian Centre, o bwynt 100 metr i'r de-orllewin o gyffordd Ffordd Conwy â Ffordd Ysguborwen, i gyfeiriad y dwyrain am bellter o 16 o fetrau (y rhoddwyd y rhif 1/3 iddo ar Blan Safle 1).	1/3a

## ATODLEN 2

### PLAN SAFLE 2

#### **Y PRIFFYRDD SYDD I'W GWELLA**

Ffordd Ysguborwen  
Maes y Llan

<b><u>Y PRIFFYRDD SYDD I'W CAU</u></b>	<b><u>MANYLION Y PRIFFYRDD NEWYDD</u></b>		
	<b><u>Llythyren gyfeirnod y Briffordd newydd</u></b>	<b><u>Awdurdod Priffyrdd</u></b>	<b><u>Dosbarthiad y Briffordd</u></b>
Cefnffordd yr A55, o bwynt 37 o fetrau i'r de-orllewin o Ffordd Fynediad Breifat Network Rail, i gyfeiriad y de-orllewin am bellter o 123 o fetrau (y rhoddwyd y cyfeirnod 2/S1 iddi ar Blan Safle 2)	-	-	-

<p>Y grisiau i gerddwyr ger cefnffordd yr A55, o'i chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth sy'n arwain i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain o Faes y Llan, ar ffin ogledd-ddwyreiniol 38 Maes y Llan, am bellter o 13 o fetrau (y rhoddwyd y cyfeirnod 2/S2 iddynt ar Blau Safle 2)</p>	<p>2/A</p>	<p>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy</p>	<p>Ffordd Ddosbarthiadol</p>
<p>Y cyfan o'r Ffordd Ddiddosbarth sy'n rhedeg o'i chyffordd â Maes y Llan, wrth ffin ogleddol 38 Maes y Llan, i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain hyd at ei chyffordd â Llwybr Troed 08 Penmaenmawr, sef pellter o 106 o fetrau (y rhoddwyd y cyfeirnod 2/S3 iddi ar Blau Safle 2)</p>	<p>2/A</p>	<p>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy</p>	<p>Ffordd Ddosbarthiadol</p>
<p>Llwybr Troed 08 Penmaenmawr o'i derfyn gogledd-orllewinol ar y traethlin ar ochr ogledd-orllewinol cefnffordd yr A55, i'r gogledd-orllewin o'r Orsaf Betrol Shell, i gyfeiriad y de-ddwyrain yn gyffredinol, dros bont droed â ramp sy'n croesi dros gefnffordd yr A55, hyd at bwynt 75 o fetrau i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â'r Ffordd Ddiddosbarth sy'n arwain i Faes y Llan, sef cyfanswm pellter o 222 o fetrau (y rhoddwyd y cyfeirnod 2/S4 iddo ar Blau Safle 2)</p>	<p>2/A (Rhan)</p> <p>2/B (Llwybr Troed)</p> <p>2/C (Llwybr Troed)</p>	<p>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy</p> <p>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy</p> <p>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy</p>	<p>Ffordd Ddosbarthiadol</p> <p>-</p> <p>-</p>
<p>Y ramp â grisiau i gerddwyr/ Llwybr Troed heb Rif o'i gyffordd â Llwybr Troed 08 Penmaenmawr ar y bont droed sy'n croesi dros gefnffordd yr A55, i gyfeiriad y de-orllewin am bellter o 13 o fetrau, hyd at ei gyffordd â throetffordd ogledd-orllewinol cefnffordd yr A55 (y rhoddwyd y cyfeirnod 2/S5 iddo ar Blau Safle 2)</p>	<p>2/A (Rhan)</p> <p>2/B (Llwybr Troed)</p> <p>2/C (Llwybr Troed)</p>	<p>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy</p> <p>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy</p> <p>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy</p>	<p>Ffordd Ddosbarthiadol</p> <p>-</p> <p>-</p>

<b><u>Y MYNEDFEYDD PREIFAT SYDD I'W CAU</u></b>	<b><u>RHIF CYFEIRNOD Y FYNEDFA BREIFAT NEWYDD</u></b>
-	2/1a

### ATODLEN 3

### PLAN SAFLE 3

### **Y PRIFFYRDD SYDD I'W GWELLA**

Ffordd Glan-yr-afon

<b><u>Y PRIFFYRDD SYDD I'W CAU</u></b>	<b><u>MANYLION Y PRIFFYRDD NEWYDD</u></b>		
	<b><u>Llythyren gyfeirnod y Briffordd newydd</u></b>	<b><u>Awdurdod Priffyrdd</u></b>	<b><u>Dosbarthiad y Briffordd</u></b>
Cefnffordd yr A55 o bwynt 415 o fetrau i'r de-orllewin o ochr dde-orllewinol ei chyffordd bresennol â Ffordd Glan-yr-afon, i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain am bellter o 380 o fetrau, hyd at bwynt 35 o fetrau i'r de-orllewin o ochr dde-orllewinol ei chyffordd bresennol â Ffordd Glan-yr-afon (y rhoddwyd y cyfeirnod 3/S1 iddi ar Blau Safle 3)	-	-	-
Ffordd Glan-yr-afon o bwynt 60 o fetrau i'r de o'i chyffordd â chefnffordd yr A55, i gyfeiriad y de am bellter o 112 o fetrau (y rhoddwyd y cyfeirnod 3/S2 iddi ar Blau Safle 3)	3/A (Rhan)	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	Ffordd Ddosbarthiadol
	3/B	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	Ffordd Ddosbarthiadol
Yr hen Bangor Fields Road rhwng Ffordd Glan-yr-afon a chefnffordd yr A55, o'i chyffordd â chefnffordd yr A55, i gyfeiriad y de-ddwyrain am bellter o 50 o fetrau (y rhoddwyd y cyfeirnod 3/S3 iddi ar Blau Safle 3)	3/A (Rhan)	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	Ffordd Ddosbarthiadol
	3/C (Llwybr Troed)	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	-

<b><u>Y MYNEDFEYDD PREIFAT SYDD I'W CAU</u></b>	<b><u>RHIF CYFEIRNOD Y FYNEDFA BREIFAT NEWYDD</u></b>
Trac mynediad preifat, sy'n rhedeg ar hyd llwybr y Llwybr Troed heb Rif/yr hen Bangor Fields Road rhwng Ffordd Glan-yr-afon a chefnffordd yr A55, o'i gyffordd â chefnffordd yr A55, i gyfeiriad y de-ddwyrain am bellter o 50 metr (y rhoddwyd y rhif 3/1 iddo ar Blan Safle 3)	-
Mynedfa â chlwyd oddi ar ffin ddwyreiniol Ffordd Glan-yr-afon, yn union i'r gogledd o'r mynedfeydd i Pendyffryn Hall Caravan Park & Country Club, i gae amaethyddol gogleddol Pendyffryn Farm, sydd i'r de-ddwyrain o gefnffordd yr A55, i gyfeiriad y dwyrain am bellter o 2 fetr (y rhoddwyd y rhif 3/2 iddi ar Blan Safle 3)	3/2a
Mynedfa â chlwyd a thrac mynediad preifat sy'n rhedeg ar hyd llwybr y Llwybr Troed heb Rif/yr hen Bangor Fields Road, o'i derfyn ar ochr orllewinol Ffordd Glan-yr-afon, i gyfeiriad y gogledd-orllewin am bellter o 10 metr (y rhoddwyd y rhif 3/3 iddo ar Blan Safle 3)	3/3a
-	3/4a
-	3/5a
-	3/6a

#### **ATODLEN 4**

#### **PLAN SAFLE 4**

#### **Y PRIFFYRDD SYDD I'W GWELLA**

-

<b><u>Y PRIFFYRDD SYDD I'W CAU</u></b>	<b><u>MANYLION Y PRIFFYRDD NEWYDD</u></b>		
	<b><u>Llythyren gyfeirnod y Briffordd newydd</u></b>	<b><u>Awdurdod Priffyrdd</u></b>	<b><u>Dosbarthiad y Briffordd</u></b>
Cefnffordd yr A55 o bwynt 35 o fetrau i'r de-orllewin o'i chyffordd bresennol â Ffordd Glan-yr-afon, i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain am bellter o 415 o fetrau, hyd at bwynt 315 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ochr ogledd-ddwyreiniol ei chyffordd bresennol â Ffordd Glan-yr-afon (y rhoddwyd y cyfeirnod 4/S1 iddi ar Blan Safle 4)	-	-	-
Ffordd Glan-yr-afon o'i chyffordd â chefnffordd yr A55, i gyfeiriad y de am bellter o 97 o fetrau, wrth fesur ar hyd ei ffin ddwyreiniol (y rhoddwyd y cyfeirnod 4/S2 iddi ar Blan Safle 4)	3/A (Rhan) Ar Blan Safle 3	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	Ffordd Ddosbarthiadol
	3/B Ar Blan Safle 3	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	Ffordd Ddosbarthiadol

<b><u>Y MYNEDFEYDD PREIFAT SYDD I'W CAU</u></b>	<b><u>RHIF CYFEIRNOD Y FYNEDFA BREIFAT NEWYDD</u></b>
Mynedfa â chlwyd oddi ar ffin ddwyreiniol Ffordd Glan-yr-afon, wrth bwynt 103 o fetrau i'r de o'i chyffordd â chefnffordd yr A55, hyd at gae gogleddol Pedyffryn Farm, i'r de-ddwyrain o gefnffordd yr A55, i gyfeiriad y dwyrain am bellter o 3 metr (y rhoddwyd y rhif 4/1 iddi ar Blan Safle 4)	3/6a (Ar Blan Safle 3) 4/1a (Rhan)
Mynedfa â chlwyd oddi ar ffin ddwyreiniol Ffordd Glan-yr-afon, wrth bwynt 83 o fetrau i'r de o'i chyffordd â chefnffordd yr A55, hyd at gae gogleddol Pedyffryn Farm, sydd i'r de-ddwyrain o gefnffordd yr A55, i gyfeiriad y dwyrain am bellter o 3 metr (y rhoddwyd y rhif 4/2 iddi ar Blan Safle 4)	3/6a (Ar Blan Safle 3) 4/1a

Mynedfa â chlwyd oddi ar ffin ddwyreiniol Ffordd Glan-yr-afon, wrth bwynt 67 o fetrau i'r de o'i chyffordd â chefnffordd yr A55, drwy gaeau gogleddol Pendyffryn Farm, i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain yn gyffredinol am bellter o 375 o fetrau, i ymuno â'r trac mynediad preifat dwyreiniol sy'n rhedeg i gyfeiriad y de yn gyffredinol i Pendyffryn Farm a Lyons Pendyffryn Hall Caravan Park & Country Club (y rhoddwyd y rhif 4/3 iddi ar Blan Safle 4)

-